
## Cost Cywasgu

**Strwythur Pridd Da vs Gwael**



Trefniant gronynnau da ar gyfer symudiad dŵr ag aer.

Cywasgiad, yn ddrwg ar gyfer symudiad dŵr ag aer. Gwreiddiau gwael = Cnydau gwael

### Cynnyrch

Gwael cywasgu pridd yn achosi:

- Twf gwreiddiau gwael
- Llai o wrtaith yn cael ei adfer
- Colli mwy o nitrogen
- Colli hyd at 15% o'r cynnyrch

**Cost prynu silwair yn lle'r cynnyrch a gollir ar 10 ha = £1050 (10 ac = £425)***

*colled 1.5 tunnell DM /ha ar laswelltir â'r potensial i gynhyrchu 10 tunnell DM /HA o silwair am 35 % DM £25 /tunnell



Cledir Aredig (Plough pan)

### 1. Llai o ymateb i nitrogen

- Gall cywasgu'r pridd haneru'r ymateb i nitrogen ar ôl i dail a gwrtaith gael eu taenu, gan ddyblu cost nitrogen /kg!

### 2. Glaswellt o ansawdd gwael

- Gall cywasgu'r pridd gynyddu'r gyfran o rywogaethau eilaidd o laswellt a chwyn, sy'n cynnwys llai o ynni na rhygwellt.
- Mae prynu porthiant cyfansawdd i gymryd lle 1 MJ o ynni yn cynyddu costau blynyddol prynu porthiant £66, £26 a £4.40 y pen ar gyfer buchod godro, gwartheg eidion ac ŵyn /y flwyddyn.

### 3. Ailhau yn amlach

- Mae cywasgu'r pridd yn lleihau ansawdd y glaswellt, sy'n golygu bod angen ailhau yn amlach i gynnal maint ac ansawdd y cnwd.
- Bydd ailhau ar ôl 5 mlynedd yn hytrach nag 8 mlynedd yn cynyddu'r costau.
- Mae ailhau bob 5 mlynedd i gynnal ansawdd y glaswellt ar bridd cywasgedig yn cynyddu'r costau ailhau tua £38/ha/y flwyddyn

### 4. Llai o fwydod

Mae cywasgu'r pridd yn lleihau nifer y mwydod yn y pridd. Mewn pridd iach wedi'i strwythuro'n dda gall mwydod:

- Gyflenwi 25 kg N /ha /y flwyddyn – sy'n werth £20 /ha
- Gynyddu trosiant deunydd organig rhwng 200-300 %
- Gynyddu'r cyfraddau ymdreiddiad dŵr x 10
- Achosi 50% yn llai o ddŵr ffo
- Ffurfio pridd newydd sy'n werth rhwng £3 a £15 /ha/bl (£1.21 a £6.07 /ac/bl) ar Ffermydd Datblygu Masnachol PROSOIL

### Lleihau effeithiau cywasgiad pridd

- Anelwch at atal cywasgiad ble bynnag y bo modd (gweler tt. 10-11)
- Aseswch y pridd: "Cloddio, Trin, Mesur" (t. 42) yn enwedig lle ceir llawer o chwyn, daear foel neu os nad yw'r glaswelltir yn perfformio
- Archwiliwch y pridd i weld a oes arwyddion o gywasgiad:
  a) Craciau llorweddol
  b) Gwreiddiau'n tyfu tua'r ochr
  c) Arogl annymunol
  d) Smotiau oren neu lwyd
  e) Clymau talpiog o bridd sydd ddim yn torri o'u gwasgu rhwng eich bys a'ch bawd
- Ystyriwch ddefnyddio peiriannau i adfer tir cywasg pan fydd y pridd yn ddigon sych
- Roedd y dulliau rheoli a ddewiswyd gan Ffermwyr Datblygu Masnachol PROSOIL i wella strwythur y pridd yn cynnwys calchu (£60-£75 /ha neu £24-£30 /ac), awyru â phigau/codi'r gwndwn (£60-75 /ha neu £24-£30 /ac), aradr isbridd / aradr awyru dirgrynnol (£130-150 /ha neu £52.60 /ha), gwndwn amlrywogaeth (£500 /ha neu £202 /ac)